**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (55)**

**Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2002**

# AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i’r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg ar Hiliaeth mewn Chwareon**

**Eitem 3**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyhoeddi'r Ceisiadau Llwyddiannus i Gynllun y Sector Gwirfoddol i Hybu Iechyd**

**Eitem 4**
**Datganiad Busnes: Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 5**
**Cynnig cyfansawdd i gymeradwyo**
***Ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn. Byddwn yn awr yn pleidleisio arno.***
*NDM982* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn gweithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1. Yn cymeradwyo:
**Gorchymyn Gwerth Gorau Llywodraeth Leol (Hepgor ystyriaethau anfasnachol) (Cymru) 2002** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002; a

2. Yn ystyried:
adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sydd yn destun pryder yn y gorchymyn drafft, Gorchymyn Gwerth Gorau Llywodraeth Leol (Hepgor ystyriaethau anfasnachol) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2002

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

3. Yn cymeradwyo:
**Rheoliadau Strwythurau Pysgodfeydd a Dyframaethu (Grantiau) (Cymru) 2002** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002; a

4. Yn ystyried:
a) adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn fersiwn drafft Rheoliadau Strwythurau Pysgodfeydd a Dyframaethu (Grantiau) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2002

b) Y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mawrth 2002

Cliciwch yma i weld y rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau - Ar gael yn Saesneg yn unig
Cliciwch yma i weld y Memorandwm Cywiriadau

5. Yn cymeradwyo:
**Rheoliadau Diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro â Lloeren) (Cymru) 2002** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002; a

6. Yn ystyried:
adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sydd yn destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro â Lloeren) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2002

Cliciwch yma i weld y rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

7. Yn cymeradwyo:
**Gorchymyn Cimychiaid a Chimychiaid Cochion (Gwahardd eu Pysgota a'u Glanio) (Cymru) 2002** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002; a

8. Yn ystyried:
a) adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn fersiwn drafft **Gorchymyn Cimychiaid a Chimychiaid Cochion (Gwahardd eu Pysgota a'u Glanio) (Cymru) 2002**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2002; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002.

Cliciwch yma i weld y rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

Cliciwch yma i weld Arfarniad Rheoliadol - Ar gael yn Saesneg yn unig

**Eitem 6**
**Cymeradwyo Rheoliadau Addysg (Grantiau Cyfalaf) (Cymru) 2002**
*NDM983* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Addysg (Grantiau Cyfalaf) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2002

*NDM984* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft Rheoliadau Addysg (Grantiau Cyfalaf) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002

2. Yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2002

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

**Eitem 7**
**Cynnig i gymeradwyo'r newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant (Trosglwyddiadau MEG)**
*NDM985* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn unol â Rheol Sefydlog 19.5, yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2001-02 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2002 gan y Gweinidog Cyllid, Edwina Hart.

*Gosodwyd y tablau canlynol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth:*
*Mae Tabl 1 yn dangos y newidiadau a fwriedir i'r hyn a ddarperir rhwng y Prif Grwpiau Gwariant ar hyn o bryd; ac*
*Mae Tabl 2 yn dangos y darpariaethau diwygiedig a fwriedir ar gyfer y Prif Grwpiau Gwariant gan gymryd i ystyriaeth y dyraniadau ychwanegol.*

Cliciwch yma i weld Nodyn Esboniadol ar gyfer Cynnig i wneud newidiadau o fewn Prif Grwpiau Gwariant 2001-2002

Cliciwch yma i weld Cyllidebau Diwygiedig 2001-2002 sy'n Deillio o'r Newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

Cliciwch yma i weld Nodyn Esboniadol ar gyfer Tabl 1 y Gyllideb Ddiwygiedig ar gyfer 2001-2002

Cliciwch yma i weld Cyllidebau Diwygiedig 2001-2002 sy'n Deillio o Ddyraniadau Ychwanegol - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

Cliciwch yma i weld Nodyn Esboniadol ar gyfer Tabl 2 y Gyllideb Ddiwygiedig ar gyfer 2001-2002

**Eitem 8**
**Dadl ar Ystadau'r GIG - TYNNWYD YNOL**
*NDM986* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol "Rheoli Ystad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru" a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Tachwedd 2001 ac y gellir dod o hyd iddo ar y Fewnrwyd ar: http://www.agw.wales.gov.uk/publications/2001/agw2001_10.pdf - Ar gael yn Saesneg yn unig. Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

2. Yn cymeradwyo y camau y mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu cymryd i wella amgylchedd gofal iechyd yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi bod angen moderneiddio a gwella llawer o ystad y GIG yng Nghymru.

**Eitem 9**
**Dadl ar Wasanaethau Post**
*NDM987* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn cadarnhau bod angen gweithredu dros gadw gwasanaethau post hyfyw yng Nghymru, gan gynnwys argymhellion adroddiad Uned Perfformiad ac Arloesedd Swyddfa'r Cabinet ar foderneiddio rhwydwaith cownteri Swyddfa'r Post ac argymhellion Postcomm ynghylch darparu gwasanaethau'r post.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

(1) + (2) + (3)

(4)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu popeth ar ôl 'yng Nghymru' ym mharagraff 1 ac ychwanegu:
'yn nodi ei bryder am y ffaith bod swyddogaethau'n cael eu canoli y tu allan i Gymru, ac am y ffaith y bydd hynny'n arwain at golli swyddi, at ddirywiad yn y gwasanaeth, ac at ddiffyg buddsoddi yn y dechnoleg newydd.'

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu popeth ar ôl 'yng Nghymru' ym mharagraff 1 ac ychwanegu:
'yn mynnu cael sicrwydd y bydd pob cartref a busnes yng Nghymru, ni waeth ble y maent, yn cael eu post yn ddyddiol am yr un pris ledled y wlad'.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu popeth ar ôl 'yng Nghymru' ym mharagraff 1 ac ychwanegu:
'yn cefnogi galwad Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu am adolygiad annibynnol i'r ffordd y mae Consignia'n cael ei redeg, gan gynnwys yr angen am wasanaeth post cenedlaethol i Gymru.'

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y frawddeg:
'ac yn ategu ei fod yn cefnogi system gyffredinol i ddanfon y post sydd ar gael am yr un pris ledled y wlad'

Noder:
Os hoffech weld adroddiad Uned Perfformiad ac Arloesedd Swyddfa'r Cabinet ar foderneiddio rhwydwaith cownteri Swyddfa'r Post, defnyddiwch y cyswllt isod. http://www.cabinet-office.gov.uk/innovation/2000/postoffice/postindex.shtml - Ar gael yn Saesneg yn unig. Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

Os hoffech weld argymhellion Postcomm ynghylch darparu gwasanaethau post, defnyddiwch y cyswllt isod. http://www.postcomm.gov.uk/documents/competition/moproposals.pdf - Ar gael yn Saesneg yn unig. Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 14 Mawrth 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**